GRIFFITHS, JOHN (1731 - 1811), ysgolfeistr a phregethwr, Glandwr.

Enw: John Griffiths
Dyddiad geni: 1731
Dyddiad marw: 1811
Plentyn: William Griffiths
Plentyn: J.D. Griffiths
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr a phregethwr
Place: Glandwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn Castell Garw, plwyf Llanglydwen, Sir Gaerfyrddin, 1731. Bu am dymor mewn ysgol a gedwid gan Tasker, Hwlffordd. Yn dilyn, agorodd ysgol yng Nglandwr, Penfro. Wedi rhai blynyddoedd ar ôl ei dderbyn yn aelod yng Nglandwr, dechreuodd bregethu yno. Aeth i academi Caerfyrddin, Hydref 1754. Ar achlysur y rhwyg yn hanes honno, aeth ef a phedwar arall i athrofa'r Fenni yn 1757. Prawf hyn ei fod yn efengylaidd a Chalfinaidd ei olygiadau. Ordeiniwyd ef yng Nglandwr, 30 Mehefin 1759. Gofalai hefyd am yr achosion yn Rhydyceisiaid a Phenygroes.

Daeth ei ysgol baratoi pregethwyr yn un o sefydliadau addysgol amlwg ei gyfnod; yr oedd yn olyniaeth yr hen academïau bychain. Ystyrid ef yn ysgolhaig da ac yn athro dawnus. Aeth tyrfa o weinidogion drwy byrth academi Glandwr i'r weinidogaeth. Cyhoeddodd farwnad, catecism, a rhai pamffledau. Ymddeolodd yn 1803, a bu farw 12 Tachwedd 1811. Ceir erthygl ar ei fab William Griffiths (1777 - 1825) mewn man arall.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

Hanes â€¦ y Parch. John Griffiths, Glandwr, ynghyd ag eiddo y Parch. W. Griffiths, ei fab (1826)

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iii, 51, 45-7, 52-4

Y Diwygiwr, 1868

Walter J. Evans, NLW MS 10327B: Carmarthen Presbyterian College roll of students

gwybodaeth ychwanegol gan Mr. Howell James, Norwich

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18671762

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owen, J. D., (1953). GRIFFITHS, JOHN (1731 - 1811), ysgolfeistr a phregethwr, Glandwr.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GRIF-JOH-1731

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government